Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 71/2013

# Smygu mewn ceir sy'n cario plant: monitro agweddau'r cyhoedd

## Crynodeb gweithredol



# Smygu mewn ceir sy'n cario plant: monitro agweddau'r cyhoedd

## Crynodeb gweithredol

## Tachwedd 2013

**Chris Roberts, Jo Coates a Julie Lane**
**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**
**Llywodraeth Cymru**

Casglwyd y data ar gyfer yr astudiaeth hon gan Beaufort Research Ltd., Caerdydd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Chris Roberts
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6543
Ebost: chris.roberts@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978-1-4734-0627-8

© Hawlfraint y Goron 2013

## Crynodeb gweithredol

### Cyflwyniad

Mae’r mater o smygu mewn ceir sy’n cario plant wedi bod yn thema gyson yn Adroddiadau Blynyddol diweddar cyn Brif Swyddog Meddygol Cymru, lle y codwyd pryderon am beryglon iechyd posibl mwg ail-law i blant. Mae plant yn arbennig o agored i effeithiau mwg ail-law, sy’n gysylltiedig â phob math o broblemau iechyd plant yn cynnwys marwolaeth sydyn babanod, anhwylderau anadlu is, anhwylder y glust ganol, asthma a llid yr ymennydd. Dengys ymchwil a wnaed yng Nghymru nad yw hi’n beth anghyffredin bod plant yn dioddef smygu mewn ceir, tra bo tystiolaeth o lefydd eraill yn dangos cefnogaeth i gyfyngu ar smygu mewn ceir sy’n cario plant.

Nod yr ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn oedd archwilio agweddau’r cyhoedd at gyfyngu ar smygu mewn ceir sy’n cario plant drwy arolwg o farn oedolion yng Nghymru, er mwyn llywio’r gwaith o ddatblygu polisi yn y maes hwn. Mae’r adroddiad yn cyflwyno prif ganfyddiadau’r tri cham o gasglu data a gafodd eu cynnal ym Medi 2011, Mawrth 2012 a Thachwedd 2012.

### Dulliau

Cynhwyswyd y cwestiynau yn arolwg cyffredinol oedolion Beaufort Research Ltd, a luniwyd i gynrychioli’r boblogaeth oedolion 16 oed a throsodd sy’n byw yng Nghymru. Defnyddir rheolaethau cwota demograffig plethedig oed a dosbarth cymdeithasol o fewn rhyw ym mhob pwynt samplo ar gyfer dewis ymatebwyr. Gosodir y cwotâu hyn i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewiswyd. Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi’r rhai sy’n ymateb drwy ddefnyddio technoleg Cyfweliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiaduron (CAPI). Gwnaed y gwaith maes yn ystod Medi 2011, Mawrth 2012 a Thachwedd 2012, gyda 1018, 1007 a 1009 o gyfweliadau yn eu tro. Cyflwynir canfyddiadau'r ymatebwyr i gyd ac fesul is-grŵp: rhyw; oed; a oes plant ar yr aelwyd; statws cymdeithasol-economaidd; ardal ddaearyddol; ac a ydynt yn smygu ai peidio.

## Y Canlyniadau

Ymddygiad smygu mewn ceir

O blith yr ymatebwyr hynny a oedd yn defnyddio car, atebodd tua thri chwarter ohonynt nad oeddent yn caniatáu smygu yn eu prif gar, yn cynyddu o 71% ym Medi 2011 i 78% yn Nhachwedd 2012. Merched, pobl hŷn, y rheiny mewn grwpiau galwedigaethol proffesiynol/crefftus a'r rhai nad oeddent yn smygu oedd y mwyaf tebygol o wahardd smygu yn eu prif gar.

Agweddau at smygu a smygu mewn ceir

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr, oddeutu 90%, yn cytuno y gall mwg ail-law niweidio iechyd, y gall rhieni'n smygu niweidio iechyd ac na ddylai rhieni smygu o flaen eu plant. Roedd dwy ran o dair (68% yn Nhachwedd 2012) yn cytuno y gall mwg ail-law fod yn niweidiol am hyd at ddwy awr ar ôl smygu sigarét mewn car. Roedd llai nag un o bob deg yn cytuno ei bod yn iawn smygu mewn car sy'n cario rhai nad ydynt yn smygu neu blant â'r ffenestr ar agor, er bod y ffigyrau ychydig yn uwch i'r rhai sy'n smygu ar hyn o bryd.

Agweddau at gyfyngu ar smygu mewn ceir

Ychydig o dan hanner yr ymatebwyr a gytunai y dylid gwahardd smygu mewn ceir ar draws y tri phwynt amser (48% yn Nhachwedd 2012), yn codi i bedwar allan o bump ar gyfer ceir sy'n cario plant (82% yn Nhachwedd 2012). Serch hynny, cytunai tua saith o bob deg mai hawl yr unigolyn oedd smygu yn eu car ac mewn car sy'n cario plant (72% a 67%, yn Nhachwedd 2012). Roedd y rhai nad ydynt yn smygu yn fwy tebygol i gytuno â gwaharddiad ar smygu mewn ceir, felly hefyd merched, ymatebwyr hŷn a'r rheiny mewn galwedigaethau proffesiynol.

Effeithiau tebygol cyfyngu ar smygu mewn ceir sy'n cario plant a'r graddau y bydd pobl yn cydymffurfio â chyfyngiadau.

O blith y rheiny sydd â defnydd car, adroddodd y mwyafrif helaeth (dros 90% yn y tri cham o gasglu data) na fyddai gwaharddiad ar smygu mewn ceir sy'n cario plant yn effeithio arnyn nhw mewn unrhyw ffordd (94% o smygwyr ac 85% o'r di-smygwyr yn Nhachwedd 2012). Adroddodd tua phedwar o bob

pump smygwr (82% yn Nhachwedd 2012) y byddent yn debygol o gydymffurfio â gwaharddiad pe bai un yn cael ei gyflwyno.

Safbwyntiau ynghylch y tebygolrwydd o orfodi cyfyngiadau

Yn Tachwedd 2012, adroddodd dau o bob pum ymatebwr (40%) y credent ei bod yn debygol y byddai gwaharddiad ar smygu mewn ceir sy'n cario plant yn cael ei orfodi, ychydig yn is na ffigwr yn Medi 2011 (45%). Roedd y ffigwr hwn ychydig yn uwch ymhlith smygwyr na'r rhai nad ydynt yn smygu (e.e. 47% a 38%, yn Nhachwedd 2012).

**Trafodaeth**

Mae'r ymchwil yn rhoi cipolwg gwerthfawr i ni ar y tueddiadau diweddar yn agwedd ac ymddygiad y cyhoedd o ran smygu mewn ceir ac yn benodol smygu mewn ceir sy'n cario plant. Mae'r data'n awgrymu nad yw mwyafrif yr oedolion sydd â defnydd o gar yn caniatáu smygu ar unrhyw adeg, gyda thystiolaeth o gynnydd bychan ar draws y tri cham o gasglu data. Gellir gweld gwahaniaethau fesul ffactorau cymdeithasol-demograffig a statws smygu, sy'n awgrymu y dylai negeseuon gwaith ymgyrchu pellach iechyd cyhoeddus, megis Cychwyn Iach Cymru, barhau i ganolbwyntio ar grwpiau penodol o fewn y boblogaeth ehangach.

Ymddengys fod yr achos dros beidio â smygu mewn ceir yn cael ei dderbyn ymhlith y rhan fwyaf o oedolion yng Nghymru, yn smygwyr ac fel arall, gan mai dim ond ychydig o ymatebwyr a gytunodd ei bod yn iawn smygu mewn ceir gyda di-smygwyr neu gyda phlant. Yn yr un modd, o safbwynt opsiynau polisi posibl, dengys y canfyddiadau mai ychydig o dan hanner yr ymatebwyr oedd yn cytuno y dylid gwahardd smygu mewn ceir. Roedd hyn yn codi i bedwar o bob pump pan oedd plant yn y car, er mae'n bwysig nodi'r gwrthddywediad ymddangosiadol, sef bod mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn cytuno mai hawl yr unigolyn yw dewis a ydynt yn smygu yn eu car eu hunain, p'un ai'n cario plant ai peidio. Er bod y dystiolaeth yn awgrymu fod pobl yn credu mai nhw ddylai wneud y penderfyniad, ymddengys fod y rhan fwyaf yn

cefnogi’r rhesymeg dros gymryd camau ac eisoes yn dewis cyfyngu ar smygu yn eu car.

Mae materion sy’n ymwneud â chydymffurfio a gorfodi yn hollbwysig wrth ystyried opsiynau polisi i’r dyfodol ac adroddodd tua phedwar o bob pump smygwr y byddent yn cydymffurfio pe bai gwaharddiad ar smygu mewn ceir sy’n cario plant yn cael ei gyflwyno. Mewn cyferbyniad â hyn, tua dau o bob pum ymatebwr a oedd yn credu y byddai’n debygol y byddai gorfodaeth yn ymarferol, gyda’r ffigwr yn uwch ymhlith y smygwyr. Awgrymir y gellir egluro canfyddiadau o’r fath drwy safonau cymdeithasol, gydag unigolion yn cytuno y bydden nhw’n debygol o gydymffurfio ond efallai na fyddai eraill yn gwneud hynny.

Bydd monitro agweddau ac ymddygiadau’r cyhoedd yn parhau gyda chamau pellach o gasglu data, a ategir gan gyfuniad parhaus o waith a wneir mewn llefydd eraill, yn ogystal ag adeiladu ar ymchwil a gyhoeddwyd yn barod i bobl ifanc sydd yn agored i fwg ail-law.